# Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2020 - 21

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership



# Cynnwys


Rhagair ........................................ 3

Crynodeb gweithredol ........................................ 5

1. Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ........................................ 6

2. Trawsnewid ac integreiddio gofal a chymorth ........................................ 9

3. Gwneud gwahaniaeth ar draws ein poblogaeth ........................................ 20

4. Ymchwilio, Arloesi a Gwella ........................................ 31

5. Gweithlu cynaliadwy sy'n perfformio'n dda ........................................ 33

6. Ymgysylltu parhaus a chyd-gynhyrchu ........................................ 35

Atodiad 1 ........................................ 38

# Rhagair

Fel Cadeirydd newydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno chweched Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol i unrhyw un arall, wedi'i nodi wrth gwrs gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus enfawr a achoswyd gan y pandemig Covid-19 a drawodd ar ddechrau'r cyfnod a gwmpesir gan yr Adroddiad hwn. Mae ymrwymiad ac ymroddiad yr holl bartneriaid wrth ymateb i'r argyfwng a sicrhau bod popeth y gellid ei wneud yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau digynsail a wynebwyd gennym wedi bod yn wirioneddol ryfeddol. Er ei bod yn amlwg bod gwersi i'w dysgu, credaf y dylem gael ein calonogi gan y ffordd y gweithiodd cydweithwyr ar draws disgyblaethau a ffiniau sefydliadol i wneud penderfyniadau'n gyflym ac yn effeithlon ac wrth wneud hynny amddiffyn a diogelu rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Credaf fod trefniadau strwythurol sy'n cefnogi arferion gweithio mewn partneriaeth a diwylliant cynyddol o gydweithio ac ymddiriedaeth ar draws asiantaethau wedi gwneud ein sefyllfa'n gryfach nag y byddai wedi bod fel arall, ac mae hyn yn dyst i'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ers 2016 wrth adeiladu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. A bydd yr un cryfderau yn allweddol i'n helpu i adeiladu adferiad cryf a chynaliadwy yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Mewn sawl ffordd, profodd y pandemig hefyd werth ein gwahanol raglenni newid, yn arbennig y rheiny a oedd yn cael adnoddau trwy Gronfeydd Trawsnewid a Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Gwnaethant lawer i'n galluogi i ymateb i anghenion pobl yr oedd y cyfyngiadau symud yn golygu unigedd iddynt a bod angen mwy o gymorth arnynt, trwy drefnu bod gwirfoddolwyr ar gael ar draws ein cymunedau i ymateb i alwadau am gymorth, darparu galwadau rhagweithiol i bobl ar y rhestr warchod, cysylltu pobl trwy gyfrwng technoleg a sicrhau bod modd gwneud ymyriadau clinigol hanfodol gartref heb fod angen eu derbyn i'r ysbyty. Mewn byd sydd heb os wedi newid am byth, mae gennym gyfle yn awr i adfyfyrio a gwneud dulliau a weithiodd yn ein busnes bob dydd yn rhai prif ffrwd wrth symud ymlaen. Mae ymestyn y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn drosiannol arall i'w groesawu'n fawr a bydd hyn yn ein galluogi i brofi ein modelau gofal arloesol ymhellach dros y deuddeg mis nesaf a datblygu achosion busnes cadarn ar gyfer y rheiny rydym am iddynt barhau a'u gwneud yn rhai 'busnes fel arfer' pan ddaw'r cyfnod ariannu i ben.

Byddai'r rhagair hwn yn anghyflawn heb dalu teyrnged i Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru sydd yn awr yn gadael ei swydd, y Cynghorydd Jane Tremlett, am ei gwaith rhagorol yn arwain y Bartneriaeth dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, sydd wedi bod yn ganolog wrth osod y sylfeini cryf yr wyf am inni adeiladu arnynt dros y cyfnod sydd i ddod. Un o gamau gweithredu olaf Jane fel Cadeirydd oedd comisiynu sesiynau datblygu a hwyluswyd yn allanol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac uwch-arweinwyr ar draws y system ac roedd hyn yn gyfle gwerthfawr ac amserol i ni fyfyrio a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bydd 2021-22 yn flwyddyn dyngedfennol i ni wrth i ni barhau i gyflawni ein blaenoriaethau presennol a chymryd golwg fanwl ymlaen i'r dyfodol trwy gwblhau ein hail Asesiad Poblogaeth, gan nodi'r angen am ofal a chymorth yn ein cymunedau a'r tro hwn bydd wedi'i ategu gan asesiad cynhwysfawr o'n marchnadoedd lleol a'u cynaliadwyedd dros y cyfnod sydd i ddod. Bydd y ddau ymarfer yn allweddol wrth bennu ein cyfeiriad yn y dyfodol, gan ystyried effaith y pandemig a goblygiadau posibl 'Covid Hir' yn ein poblogaeth. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda phartneriaid a dinasyddion wrth i ni gyfeirio ein huchelgais,

ein hegni a'n hadnoddau tuag at ddatblygu a gweithredu'r atebion cywir ar gyfer Gorllewin Cymru.

Rwyf yn benderfynol y dylai ein profiad a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu gael eu rhannu'n ehangach wrth inni, ledled Cymru, barhau i weithio ar y cyd ac ar bob lefel i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'u cadarnhau o fewn Cymru Iachach.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein Hadroddiad Blynyddol a hoffwn eich atgoffa y gallwch ddod o hyd i lawer mwy o wybodaeth am waith y Bartneriaeth ar ein gwefan trwy fynd i https://www.wwcp.org.uk/?lang=cy neu trwy gysylltu ag aelodau'r Uned Partneriaeth Ranbarthol - darperir manylion cyswllt ar eu cyfer ar ddiwedd yr adroddiad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i holl aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r bartneriaeth ehangach am eu cefnogaeth a'u holl waith caled wrth sicrhau'r cyflawniadau sylweddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.



**Judith Hardisty**
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

# Crynodeb gweithredol

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP) yn gweithredu ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n cynnwys siroedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n goruchwylio rhaglen eang o weithgarwch sydd â'r nod o wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn dod ynghyd ag uwch-arweinwyr o bob sector, ynghyd â defnyddwyr a gofalwyr, i gyfarwyddo rhaglen y Bartneriaeth. Eleni penodwyd Judith Hardisty o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn Gadeirydd y Bwrdd a Hazel Lloyd Lubran o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion yn Is-gadeirydd. Chwe blynedd ar ôl sefydlu'r Bwrdd, mae'r partneriaid hefyd wedi neilltuo amser i fyfyrio ar ein cynnydd a nodi blaenoriaethau a gwell ffyrdd o weithio yn y cyfnod sydd i ddod.

Mewn sawl ffordd mae Covid-19 wedi cyflymu'r cydweithio a'r arloesi yn y rhanbarth, wrth i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i leihau'r effaith ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae rhaglenni a gefnogir gan Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) wedi bod yn allweddol wrth ddarparu ymateb effeithiol ac integredig i'r heriau a wynebwyd dros gyfnod y pandemig. Bydd tystiolaeth gadarn o ganlyniadau a gyflawnwyd ar draws y rhanbarth ac arsylwadau gan werthuswyr annibynnol yn bwydo i mewn i gynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer bwrw ymlaen â'r pethau hynny sydd wedi gweithio y tu hwnt i'r cyfnod cyllido trosiannol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2022.

Mae'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, ynghyd ag adnoddau eraill a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru megis cyllid i gynorthwyo i ryddhau cleifion o'r ysbyty, wedi ein helpu i gyflwyno modelau gofal newydd a gwell canlyniadau i wahanol grwpiau o'r boblogaeth gan gynnwys pobl awtistig, plant a phobl ifanc, pobl sy'n byw gyda dementia, pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn a'r rheiny sy'n byw gyda nam ar y synhwyrau. Rydym hefyd wedi gallu buddsoddi ymhellach mewn cymorth i ofalwyr di-dâl, sy'n chwarae rôl mor hanfodol wrth gadw aelodau o'r teulu a ffrindiau'n ddiogel ac yn iach gartref.

Rydym bob amser yn ofalus i adlewyrchu barn ac anghenion dinasyddion wrth ddatblygu dulliau gweithredu newydd, ac rydym am adeiladu ar ein gallu i weithio'n ystyrlon gyda phobl sy'n byw yng Ngorllewin Cymru yn ein hymgyrch barhaus i arloesi a chroesawu'r arferion gorau posibl o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae barn y darparwyr yr un mor bwysig ac, unwaith y byddwn wedi dod allan o'r pandemig, byddwn yn ceisio defnyddio ein Fforwm Arloesi i ymgysylltu â'r rheiny sy'n darparu gofal a chymorth ynglŷn â'r materion strategol a gweithredol sy'n bwysig. Bydd capasiti newydd a ddarperir drwy'r Hyb Cydlynu Ymchwilio, Arloesi a Gwella (RIICH) o gymorth yn hyn o beth ac yn helpu i sicrhau ein bod yn uwchraddio'r pethau sy'n gweithio ac yn mabwysiadu dulliau gweithredu y profwyd eu bod yn llwyddiannus mewn mannau eraill.

Un o'r pethau pwysicaf yn ein hymgais barhaus am ragoriaeth yw denu pobl i'r sector iechyd a gofal a sicrhau bod pobl sy'n dewis gweithio yn y maes hwn yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael cyfleoedd gwirioneddol o ran amodau gwaith a datblygiad personol a phroffesiynol. Drwy ein bwrdd gweithlu rhanbarthol, byddwn yn sicrhau bod staff, sef ein hased mwyaf gwerthfawr, yn cael eu grymuso a'u galluogi'n llawn i wneud gwahaniaeth ym mywydau'r bobl hynny yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu.

## 1. Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (WWCP) yn gweithredu ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sy'n cynnwys siroedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n goruchwylio rhaglen eang o weithgarwch sydd â'r nod o wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr trwy drawsnewid y modd y caiff gwasanaethau eu darparu a datblygu dull cydgysylltiedig sy'n rhychwantu cymorth ataliol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd cymunedol.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn dwyn ynghyd uwch-arweinwyr o'r GIG, llywodraeth leol a'r trydydd sector, darparwyr annibynnol a defnyddwyr a gofalwyr. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cyfarwyddo gwaith y Bartneriaeth ac wrth wneud hynny mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a gyflwynwyd yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau allweddol megis y rheiny ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a threfniadau cronfeydd cyfun lle bo'n briodol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol craidd megis darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gwasanaethau eiriolaeth

Estynnwyd aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn 2019 ac mae bellach yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau addysg a phlant, tai ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn ymestyn ar draws pob grŵp poblogaeth ac mae'n golygu bod gennym y bobl iawn o amgylch y bwrdd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o benderfynyddion iechyd a llesiant ar draws ein cymunedau.

Roedd y newidiadau a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Penodi Cadeirydd newydd, Judith Hardisty (sydd hefyd yn Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) ac Is-gadeirydd, Hazel Lloyd Lubran (Brif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) ym mis Hydref 2020). Wrth gytuno ar y penodiadau hyn, talodd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol deyrnged i'r cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Jane Tremlett, a'i gwaith o arwain y Bwrdd dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf

- Ymddiswyddiad un cynrychiolydd gofalwyr, Margaret Allen, yn gynnar yn 2021. Byddwn yn ceisio ehangu ein cynrychiolaeth o ddefnyddwyr a gofalwyr yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd, gan adeiladu ar y cyfraniad sylweddol a wnaed eisoes gan Margaret a chynrychiolwyr dinasyddion eraill i waith y Bartneriaeth

Ceir aelodaeth bresennol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cyfarfod 5 gwaith y flwyddyn. Yn 2020-21 cynhaliwyd cyfarfodydd ar:

- 11 Mai 2020
- 22 Gorffennaf 2020

- 29 Hydref 2020
- 11 Chwefror 2021
- 18 Mawrth 2021

Oherwydd Covid-19, cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar ffurf rithwir eleni. Nid yw hyn wedi effeithio ar amrywiaeth na chadernid y trafodaethau, sydd wedi amrywio o'r ymateb i'r pandemig a'i effaith ddisgwyliedig, datblygu Strategaeth Gofalwyr ranbarthol, gwerthuso rhaglenni a ariennir yn allanol a datblygu blaengynlluniau, gweithredu ein cynllun gaeaf integredig, cryfhau ein ffocws ar blant a phobl ifanc, goblygiadau'r Côd Ymarfer newydd ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn i ganolbwyntio o'r newydd ar wasanaethau ar gyfer pobl awtistig a'u teuluoedd. Mae manteision ymarferol trefniadau rhithwir, megis bod dim rhaid i bartneriaid deithio pellter mawr i fynd i gyfarfodydd, wedi dod yn glir a byddwn yn ceisio cadw'r rhain a'u cyfnerthu pan fyddwn yn dod i ystyried trefniadau gweithredu ar ôl Covid.

Dros y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ein rhanbarth, gan ganolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb a rennir megis adeiladu cysylltiadau yn ein cymunedau a rhannu data i lywio rhaglenni priodol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar gael i'r cyhoedd trwy ddilyn y ddolen ganlynol: [https://www.wwcp.org.uk/agendau-a-chofnodion-bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gorllewin-cymru/?lang=cy](https://www.wwcp.org.uk/agendau-a-chofnodion-bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gorllewin-cymru/?lang=cy)

Yn hydref 2020 cynhaliwyd sesiynau datblygu a hwyluswyd yn allanol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Grŵp Gweithredol Integredig. Roedd y rhain yn gyfle i adolygu nodau a diben craidd, ailedrych ar flaenoriaethau, asesu effeithiolrwydd ac effaith a nodi meysydd i'w gwella. Teimlai'r Aelodau fod gweithio mewn partneriaeth wedi aeddfedu'n sylweddol dros y pum mlynedd ers sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a bod y trefniadau rhanbarthol yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau cyflym a gwybodus rhwng partneriaid wrth ymateb i Covid-19. Fodd bynnag, cytunwyd bod angen gwneud rhagor o waith i:

- Gyfleu blaenoriaethau a chanlyniadau cyffredin, wedi'u llywio gan weledigaeth glir ar gyfer y rhanbarth
- Profi camau gweithredu gan bartneriaid, ar y cyd ac yn unigol (o ran gweithgarwch 'craidd' a rhaglenni a ariennir yn allanol) yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau hyn
- Datblygu dull mwy rhagweithiol a strategol o drawsnewid ac integreiddio sy'n llywio blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol
- Cryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng y rhaglen ranbarthol a'r newid strategol sy'n cael ei ddatblygu gan bartneriaid unigol, megis strategaeth iechyd a gofal y Bwrdd Iechyd a gwaith y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r camau penodol sy'n cael eu datblygu o ganlyniad yn cynnwys:

- Datblygu Maniffesto cyffredinol ar gyfer gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru. Bydd hyn yn gysylltiedig ag anghenion y boblogaeth ac yn adlewyrchu ymrwymiadau o fewn y Cynllun Ardal (wedi'i ddiweddaru yn ôl yr angen) a blaenoriaethau partneriaid unigol. Bydd yn gwella atebolrwydd rhwng

partneriaid a chyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, ac yn hwyluso'r gwaith o fonitro cynnydd. Bydd y Maniffesto yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w lofnodi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

- Adolygiad o lywodraethu rhanbarthol gyda'r nod o sicrhau atebolrwydd cadarn ar draws rhaglen y Bartneriaeth a hwyluso dull cydgynhyrchiol o ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae'r gwelliannau sydd eisoes ar waith yn cynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen Gorllewin Cymru Iachach i oruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglenni a ariennir gan y Gronfa Trawsnewid a Grŵp Rhaglen Plant a Phobl Ifanc sy'n cefnogi arferion cydweithio i sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd a chanlyniadau cadarnhaol i bobl yng Ngorllewin Cymru. Ochr yn ochr â hyn, caiff trafodaethau eu datblygu ynghylch y posibilrwydd o greu grŵp 'sicrwydd' ar y cyd i graffu ar gyflawniad a gwariant ar draws agenda ehangach y Bartneriaeth.

Hefyd eleni, sefydlwyd 'Fforwm Arweinyddiaeth' cenedlaethol o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Ranbarthol, gyda Gorllewin Cymru yn chwarae rôl lawn a gweithgar. Cefnogir y Fforwm gan y Swyddogion Arweiniol ar draws y saith maes partneriaeth. Mae amseriad y datblygiad hwn yn ddefnyddiol gan ei fod yn dod yn sgil Papur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth', a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ym mis Ionawr, a chynnig deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau arferion gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i arweinwyr rhanbarthol ddod at ei gilydd, rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu a'u profiad, nodi heriau a chyfleoedd a chytuno ar eitemau i'w trafod a'u harchwilio ymhellach gyda Gweinidogion a Swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i ni symud Byrddau Partneriaeth Ranbarthol i gam nesaf eu datblygiad.

## 2. Trawsnewid ac integreiddio gofal a chymorth

Mae'r uchelgais graidd hon wrth wraidd popeth y mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn ehangach yn ei wneud. Ein hymrwymiad cyffredinol o hyd yw sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yng Ngorllewin Cymru yn cael y cymorth cywir, mewn ffordd gydgysylltiedig a di-dor, fel eu bod yn aros yn iach ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd ac yn gallu gwneud y gorau o'u bywydau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dyhead yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sef 'Cymru Iachach', ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac atal salwch.' Mae'n gofyn am sylw a buddsoddiad ym mhob un o'r pedwar maes canlynol, a ddisgrifir fel y 'Nod Pedwarplyg':

- Poblogaeth â gwell iechyd a llesiant
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o well ansawdd ac sy'n fwy hygyrch
- Iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy sydd â chymhelliant

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu 'triongl gofal a chymorth' sy'n nodi beth y mae'r dull system gyfan hwn, sy'n canolbwyntio ar lesiant, yn ei olygu i bobl yn ein rhanbarth ar wahanol gamau o'u taith:




Mae gan bob haen yn y triongl y nodau canlynol:

### Cymorth i Gymunedau Cryf

- ✓ Canolbwyntio ar gryfhau ein cymunedau a gweithredu ymagwedd seiliedig ar asedau at lesiant
- ✓ Darparu model cydlynol o ran cydnerthedd ardal, gyda rolau sy'n cefnogi ac yn gwella ei gilydd
- ✓ Annog a meithrin cymunedau i ddatblygu darpariaeth ar y cyd drwy gydweithio yn wahanol i ddulliau traddodiadol o'r brig i'r bôn

- ✓ Cefnogi atebion ymarferol sy'n annog 'cynhyrchiant cymdeithasol' drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cryfderau perthnasoedd a chymunedau 'go iawn'

### Cymorth i Helpu eich Hun

- ✓ Adeiladu ar ein dull wedi'i lunio ar y cyd sy'n seiliedig ar asedau i ddarparu gwasanaethau llesiant, cymorth a gofal integredig rhagweithiol i boblogaethau lleol
- ✓ Sicrhau bod gwasanaethau'n rhagweithiol ac yn grymuso unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant
- ✓ Alinio ein gwasanaethau a chydlynu gofal o amgylch ein poblogaeth, yn seiliedig ar eu hanghenion a'r ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sydd bwysicaf
- ✓ Darparu gwasanaeth arloesol a rhagweithiol a gefnogir drwy gronfeydd trawsnewid i gefnogi cynllunio gofal rhagweithiol ar gyfer grwpiau lle mae'r lefel risg wedi'i phennu

### Cymorth pan fydd ei angen arnoch

- ✓ Sicrhau bod ein system un pwynt mynediad yn effeithiol ac yn effeithlon; symleiddio llwybrau, gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer atal, a gwella canlyniadau
- ✓ Ymgorffori a chryfhau ein hymagwedd at Ofal Canolraddol Integredig yn seiliedig ar 4 ardal fel y gall pobl wella, adsefydlu ac ailalluogi gartref yn hytrach nag yn yr ysbyty
- ✓ Darparu Gwasanaeth Ymateb i Argyfwng arloesol yn y gymuned i gryfhau ein hymateb tymor byr drwy dimau ardal integredig

### Cymorth hirdymor

- ✓ Darparu llwybrau gofal a chymorth di-dor, drwy ein timau ardal integredig
- ✓ Alinio ein gwasanaethau arbenigol ar gyfer gofal cymhleth, cronig, hirdymor a lliniarol i'n Hardaloedd Integredig i adeiladu rhwydwaith cynhwysfawr o weithwyr proffesiynol arbenigol
- ✓ Hwyluso newid o ran gofal i glinigau yn y gymuned
- ✓ Gweithio gyda sefydliadau trydydd sector lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i alluogi gofal tosturiol ac urddasol o ansawdd uchel i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor neu'r rhai ar ddiwedd eu hoes

### Cymorth mewn ysbytai

- ✓ Darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion mewn ymateb i achosion difrifol o salwch sy'n gofyn am ofal mewn lleoliad cleifion mewnol.
- ✓ Darparu gwasanaeth eiddilwch pwrpasol a theg sy'n canolbwyntio ar alluogi pobl i ddychwelyd adref mewn modd amserol a thrwy hynny leihau'r risg o haint neu ddatgyflyru.
- ✓ Galluogi cleifion i gael mynediad i leoliadau cymunedol eraill drwy gysylltu â'r rhai integredig

Mae'r model hwn yn sbarduno newid yn y system ar draws ardal Gorllewin Cymru. O safbwynt rhanbarthol, rydym yn ceisio sicrhau bod yr holl gyllid y mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni un neu fwy o'r pum elfen. Mae'r adran ganlynol yn edrych yn fyr ar ffrydiau ariannu unigol, yr hyn y maent yn ein helpu i'w gyflawni a ble rydym yn bwriadu mynd nesaf.


## Cronfa Trawsnewid

Mae'r Gronfa hon wedi bod ar gael ers 2018 a chaiff ei darparu i gynorthwyo partneriaethau i gyflawni nodau 'Cymru Iachach’. Yn 2020-21 derbyniodd Gorllewin Cymru £7.483m er mwyn parhad ein rhaglen 'Gorllewin Cymru Iachach'. Mae hyn yn cynnwys tair is-raglen ryngddibynnol sydd gyda'i gilydd yn ceisio rhoi hwb i gymorth i bobl sydd mewn perygl o fod angen gofal a chymorth yn gynnar a'u hatal rhag gorfod derbyn gofal cymdeithasol a/neu feddygol parhaus. Cyflawnir hyn drwy adeiladu cymunedau gweithgar a charedig, helpu unigolion i helpu eu hunain, mynd ati'n rhagweithiol i fonitro pobl sy'n arbennig o agored i niwed, darparu cymorth sy'n seiliedig ar dechnoleg ac ymateb cydgysylltiedig i argyfyngau anfeddygol a chlinigol sy'n cael pobl yn ôl ar eu traed yn gyflym ac yn osgoi'r angen am ofal mewn ysbytai neu ofal hirdymor lle bynnag y bo modd.

Rhestrir cydrannau pob rhaglen isod. *(Mae'r niferoedd yn adlewyrchu'r rheiny a ddyrannwyd yng nghynnig gwreiddiol Gorllewin Cymru Iachach (2018) a oedd yn cynnwys wyth rhaglen, y dyfarnwyd cyllid i'r tair hyn ohonynt).*

### Rhaglen 1: CONNECT

- Asesiad llesiant unigol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion ac yn seiliedig ar offeryn asesu Sbaenaidd a ddilyswyd yn academaidd
- Cynllun llesiant pwrpasol sy'n nodi canlyniadau personol a 'digwyddiadau sbarduno' megis unigrwydd, codymau a straen gofalwyr
- Galwadau llesiant rhagweithiol i drafod cynnydd, cytuno ar newidiadau a throsglwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd
- Ymateb llesiant 24/7 o fewn 60 munud ar gyfer argyfyngau anfeddygol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol
- Llwybrau cymorth rhagweithiol sy'n cyfateb i anghenion unigolion, gan gynnwys: (1) darparu llechi ac Ap CONNECT 2U sy'n cysylltu pobl â chymunedau rhithwir a lleihau unigedd; (2) gwell cefnogaeth i ofalwyr; (3) rheoli codymau; (4) rhaglen addysg ar gyfer hunanreoli; a (5) cymorth cymunedol hyblyg arall




### Rhaglen 3: Integreiddio Cyflym a Chyson

- Timau Cymunedol Mynediad Cyflym ym mhob rhan o Orllewin Cymru sy'n darparu gwasanaeth amlddisgyblaethol i bobl yn eu cartrefi, a ddarperir o fewn 2 awr a thros gyfnod o 8 diwrnod ar y mwyaf
- Yn ategu'r gwasanaeth ymateb llesiant o fewn y rhaglen Connect
- Cefnogir gan reolwyr prosiect integredig ar draws y rhanbarth gyda chylch gwaith ehangach i gyflymu integreiddio ar draws pob rhan o'r system




Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb

- Platfformau CONNECT To i gefnogi bancio amser person i berson trwy baru'r cymorth y gofynnwyd amdano gyda chynigion o gymorth
- Ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd yn hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a chymunedau tosturiol, gan ganolbwyntio ar grwpiau allweddol megis pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a sbarduno newid o fewn y gweithlu
- Rhaglen sgiliau carlam i weithwyr cymunedol i'w cael i gymryd mwy o ran yn eu cymuned ac annog pobl i ymwneud â gofal a chymorth
- Cymell pobl i wirfoddoli trwy fodelau darparu hyblyg, cymorth datblygiadol i grwpiau cymunedol a threialu cynlluniau adnoddau cymunedol
- Hybiau Gweithredu Lleol yn seiliedig ar fodel 'neuadd bentref rithwir', sy'n cefnogi datblygiad cymorth cymunedol cyfunol
- Rhaglen grantiau i gefnogi prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, cynyddu sgiliau a lleihau unigedd
- Swyddogion 'Cysylltydd Cymunedol a Mwy' yn hyrwyddo'r rhaglen ac yn cefnogi'r gwaith o'i gweithredu

Rydym wedi datblygu'r rhaglen Gorllewin Cymru Iachach yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Covid-19 yn sicr wedi effeithio ar bob un o'r rhaglenni, er eu bod wedi'u haddasu, ac mewn rhai achosion wedi'u cyflymu, i ddiwallu anghenion penodol sy'n deillio o'r pandemig. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Yn ystod y don gyntaf, ymestyn galwadau rhagweithiol a darparu llechi sy'n darparu cysylltiadau â chymunedau rhithwir i grwpiau sy'n gwarchod a phreswylwyr bregus eraill gan gynnwys pobl â dementia a'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn y cartref, drwy CONNECT

- Gwelliannau i ymgynghoriadau rhithwir a gwelliannau mewn amseroedd ymateb i argyfwng drwy'r rhaglen Integreiddio Cyflym a Chyson

- Cyflymu'r gwaith o ddatblygu Hybiau Gweithredu Lleol rhithwir i hwyluso grwpiau sy'n darparu cymorth penodol sy'n gysylltiedig â Covid a threfnu bod gwirfoddolwyr ar gael i helpu pobl y mae angen cymorth arnynt yn y gymuned trwy'r rhaglen Creu Cysylltiadau i Bawb

Darperir isod grynodeb o'r canlyniadau hyd yma.

| Rhaglen | Canlyniadau |
|---|---|
| Rhaglen 1: CONNECT | ✓ Gwasanaeth ar waith ar draws y rhanbarth<br>✓ Roedd 2,300 o drigolion wedi ymuno â'r rhaglen erbyn mis Mawrth 2021, 88% ohonynt yn rhai nad oedd ganddynt linell fywyd cyn hynny<br>✓ Gwnaed 12,030 o alwadau rhagweithiol a 45,152 o sgyrsiau monitro erbyn mis Mawrth 2021<br>✓ Mae dros 40% o'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y cynllun CONNECT yn adrodd eu bod wedi profi gwelliannau i'w hiechyd meddwl, eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain ac i gael y cymorth cywir, yn ogystal â llai o unigrwydd ac unigedd<br>✓ 2,500 o ymweliadau ymateb llesiant, ac o'r rhain dim ond 6% ohonynt a arweiniodd at gyfeirio at wasanaethau brys<br>✓ 91% o gyfranogwyr yn dewis parhau â'r gwasanaeth ar ôl y cyfnod cychwynnol, am ddim o 6 mis |
| Rhaglen 3: Integreiddio Cyflym a Chyson | ✓ Modelau lleol ar waith ar draws y rhanbarth<br>✓ Cefnogwyd 9,202 o bobl<br>✓ Cafodd o gwmpas 5,000 o dderbyniadau i'r ysbyty eu hosgoi<br>✓ Hwyluswyd 1,000 o achosion o ryddhau cleifion o'r ysbyty i wasanaeth<br>✓ Dros 4,000 o bobl yn gallu aros yn ddiogel gartref |
| Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb | ✓ Platfformau Connect To yn weithredol ar draws y rhanbarth, gyda dros 600 o aelodau wedi cofrestru â hwy a mwy na 60 awr o gymorth wedi'u cyfnewid<br>✓ Cyflwyno ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd, gan gynnwys hysbyseb deledu genedlaethol. Mae mwy na 300 o addewidion caredigrwydd wedi'u gwneud ac mae 800 o bobl wedi ymuno â grŵp Cysylltu â Charedigrwydd ar Facebook<br>✓ Cyflwynwyd rhaglen sgiliau ar gyfer mwy na 30 o weithwyr cymunedol<br>✓ 350 o Hybiau Gweithredu Lleol a grwpiau cymunedol wedi'u cefnogi i gynyddu dinasyddiaeth weithredol a gwella cydnerthedd cymunedol<br>✓ £250,000 wedi'i ddyrannu i grwpiau cymunedol i gefnogi prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau |

I weld detholiad o astudiaethau achos sy'n dangos effaith y rhaglenni Gorllewin Cymru Iachach ar unigolion ledled y rhanbarth, dilynwch y ddolen hon https://www.wwcp.org.uk/healthier-west-wales-case-studies/?lang=cy

Ym mis Awst 2020 comisiynodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol werthusiad annibynnol o'r rhaglenni Gorllewin Cymru Iachach. Roedd hyn yn nodi cynnydd yn gyffredinol ac yn argymell nifer o welliannau gan gynnwys gwella setiau data i asesu effaith rhaglenni; dangos tystiolaeth o effaith gwahanol drefniadau cyflawni mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth; cryfhau'r ymgysylltiad â defnyddwyr, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill a defnyddio gwybodaeth ddilynol i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni; a chael rhaglenni i gyd-fynd yn agosach er mwyn galluogi staff sy'n ymwneud â'r gwaith o'u cyflwyno i gydnabod eu cyfraniad i'r tirlun ehangach o drawsnewid. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. O ystyried y dystiolaeth gadarnhaol a gyflwynwyd yn yr adroddiad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ddyraniad o ychydig o dan £6m yn 2021-22 i barhau â'r rhaglenni am flwyddyn drosiannol arall.

Ochr yn ochr â'r rhaglenni Gorllewin Cymru Iachach, darparodd y Gronfa Trawsnewid hefyd adnoddau wedi'u neilltuo i'r Bartneriaeth i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad ac adrodd ac ymgysylltu parhaus. O ganlyniad, yn 2020-21 roeddem yn gallu penodi Swyddog Perfformiad a Gwerthuso i arwain y gwaith o ddatblygu metrigau i asesu effaith trawsnewid a rhaglenni rhanbarthol eraill. Gwnaethom hefyd gyfrannu at gostau'r platfform digidol 'Engagement HQ' a gaffaelwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a nifer o sefydliadau unigol yn y rhanbarth. Bydd y feddalwedd hon yn offeryn ar gyfer ymgysylltu â gwahanol gymunedau (cymunedau daearyddol a rhai sydd â diddordeb), gan ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys fforymau rhithwir, byrddau negeseuon ar-lein, sgyrsiau seiliedig ar leoedd, storïau rhyngweithiol, cyfleusterau holi ac ateb a phleidleisiau ac arolygon. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r system yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Yn olaf, mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ledled Cymru hefyd wedi derbyn cyllid Trawsnewid i sefydlu Hybiau Ymchwilio, Arloesi a Gwella i gydlynu gweithgarwch cysylltiedig yn eu hardaloedd. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull sy'n cael ei ddefnyddio yng Ngorllewin Cymru yn Adran 4.

## Cronfa Gofal Integredig

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn darparu cyllid refeniw a chyfalaf i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno modelau gofal a chymorth newydd, integredig i bobl hŷn, pobl â dementia, plant sydd mewn perygl o fynd i ofal, plant ag anghenion cymhleth, pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr di-dâl.

Fel gyda'r rhaglen Gorllewin Cymru Iachach, effeithiodd y pandemig ar nifer o raglenni'r Gronfa Gofal Integredig; cafodd rhai eu cyflymu a'u hehangu i gefnogi'r ymateb, cafodd eraill eu hailffocysu ac nid oedd rhai'n gallu symud yn eu blaenau; yn yr achosion hynny, cafodd adnoddau eu hailddyrannu i gefnogi gweithgarwch arall.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roeddem yn gallu buddsoddi'r £11.8m a ddyrannwyd i Orllewin Cymru yn 2020-21 mewn amrywiaeth o gynlluniau arloesol gan gynnwys:

- Prosiectau sy'n ceisio meithrin cydnerthedd mewn cymunedau lleol, atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty a galluogi'r rheiny y bu'n rhaid eu derbyn i gael eu rhyddhau'n gyflym ac yn ddiogel
- Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Gwell sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y math cywir o ofal a chymorth

- Modelau gofal canolraddol sy'n helpu i adsefydlu pobl yn dilyn cyfnod o afiechyd ac ymyriadau ataliol megis osgoi codymau a rhaglenni ymarfer corff wedi'u targedu sydd â'r nod o wella llesiant corfforol ac emosiynol
- Gwasanaethau 'blaen yr ysbyty' yn helpu i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty pan fyddant yn cyrraedd Adrannau Achosion Brys a'u rhyddhau yn gyflymach lle bynnag y bo modd
- Gwasanaethau ymateb i argyfwng sy'n darparu cymorth meddygol yn y cartref
- Gwella gwasanaethau gofal a chymorth tymor hwy i'r bobl hynny sydd eu hangen
- Mentrau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl a'r cymorth sydd ar gael iddynt
- Gweithgarwch wedi'i dargedu i wella'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael i bobl ag Anableddau Dysgu
- Ymyriadau a hyfforddiant gwasanaeth, yn seiliedig ar ymarfer ymwybodol o drawma, sy'n cynorthwyo plant sydd mewn perygl o fynd i ofal i aros gyda'u teuluoedd
- Darparu llwybr gofal a chymorth tri cham i bobl sy'n byw gyda Dementia

Ceir enghreifftiau manwl yn Adran 3.

Mae cyllid y Gronfa Gofal Integredig hefyd o gymorth i gyflwyno'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (gweler Adran 3 am ragor o fanylion) ac i barhau i weithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), sef system rheoli gofal integredig sy'n galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng awdurdodau lleol a'r GIG gan ei gwneud yn haws darparu gofal cydgysylltiedig i unigolion. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio WCCIS ac mae'r system hefyd yn cael ei chyflwyno ar draws rhai rhannau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Un o flaenoriaethau allweddol y flwyddyn i ddod fydd datblygu ei swyddogaethau i alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng WCCIS a systemau rheoli gofal eraill sydd ar waith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â'r un manteision posibl i ystod ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn ogystal â chyllid refeniw, derbyniodd Gorllewin Cymru ddyraniad o £5.3m ar ffurf Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Daw hyn â chyfanswm y dyraniad dros y pedair blynedd diwethaf i £19.2m, gyda £5.3m arall wedi'i glustnodi ar gyfer 2020-21. O ystyried maint a chymhlethdod llawer o'r prosiectau a gefnogir, mae'r arian wedi'i reoli ar ffurf rhaglenni dros flynyddoedd ariannol, gan alluogi gwaith paratoi a strwythurol i gael ei drefnu'n briodol dros y tymor canolig ac i gyd-fynd â chyllid refeniw i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni. Mae'r cyllid hwn wedi ein galluogi i ddatblygu amrywiaeth o gynlluniau gwerthfawr, i gyd wedi'u tanategu gan y nodau craidd o gydweithio, cefnogi annibyniaeth a lleihau'r angen am ofal traddodiadol, sefydliadol. Ar draws y rhanbarth, rydym wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i:


- Wella ein portffolio o unedau byw â chymorth yn sylweddol, gan helpu pobl ag anableddau dysgu i symud o ofal preswyl i fyw'n annibynnol
- Datblygu cyfleusterau byw â chymorth newydd i bobl ifanc ochr yn ochr â darparu addysg amaethyddol, cymorth ymddygiadol a chyfleoedd cyflogaeth ar y safle
- Caffael tai trosiannol ac unedau seibiant ar gyfer pobl sydd â diagnosis deuol o Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu ac ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal gan ofalwyr di-dâl

- Sefydlu canolfannau rhieni a babanod ym mhob sir gan ddarparu cymorth i deuluoedd ifanc sydd ag anghenion ychwanegol
- Cynyddu capasiti gofal canolraddol mewn cartrefi preswyl ac ysbytai cymunedol
- Darparu amrywiaeth o brosiectau llai gan gynnwys cyfarpar cymunedol a mân addasiadau i dai sy'n caniatáu i bobl aros yn ddiogel yn eu cartrefi

Rydym hefyd wedi dechrau gwaith dichonoldeb cychwynnol ar gynllun mawr a fydd yn darparu cymorth amlasiantaethol, mewn llety, sy'n ymwybodol o drawma i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol sylweddol. Bydd cyflwyno'r rhaglen hon, a fydd yn allweddol i ddod â phlant a phobl ifanc sydd ar hyn o bryd wedi'u lleoli ar gyfer gofal y tu allan i'r rhanbarth yn ôl i Orllewin Cymru, yn flaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn i ddod.

## Cyllid rhyddhau

Ym mis Ebrill 2020 cyhoeddwyd Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty newydd gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o reoli rhyddhad cleifion o ysbytai a llif ysbytai yn ystod y pandemig ac yn seiliedig ar amrywiaeth o lwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA). Mae'r llwybrau hyn fel a ganlyn:




Er mwyn cynorthwyo partneriaethau i ddatblygu capasiti ar draws y llwybrau hyn, darparodd Llywodraeth Cymru ddau ddyraniad cyllid i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol dros gwrs y flwyddyn:

- Mai 2020: Cyllid ymchwydd Covid-19, i hwyluso gweithrediad y model D2RA yn ystod ton gyntaf Covid-19
- Medi 2020: Cyllid D2RA, yn cyd-daro â'r ail don ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ymhellach a darparu modelau gofal sy'n atal derbyniadau diangen i'r ysbyty ac yn galluogi pobl i adael yr ysbyty pan fyddant yn barod; roedd y cynlluniau a gefnogwyd i ffurfio rhan o gynlluniau ehangach, integredig dros y gaeaf

Derbyniodd Gorllewin Cymru £1.4m ac £1.3m yn y drefn honno gyda golwg ar y dyraniadau hyn. Ariannwyd amrywiaeth o brosiectau lleol, gan gynnwys:

| Cyllid ymchwydd Covid-19 | Cyllid gaeaf D2RA (cefnogi Cynllun Gaeaf Integredig Gorllewin Cymru) |
|---|---|
| • Ehangu trefniadau 'ward rithwir' yn Sir Gaerfyrddin i fonitro a chefnogi cleifion â Covid-19 ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty<br>• Gwell cyfleusterau camu i fyny a chamu i lawr yng Ngheredigion i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty a hwyluso trefniadau i'w rhyddhau'n amserol<br>• Tîm Ymateb Cyflym a Chymorth Brys i Gartrefi Gofal yn Sir Benfro yn cefnogi cleifion Covid-19 mewn lleoliadau preswyl a gartref<br>• Gwasanaeth rhanbarthol i gynorthwyo i ryddhau cleifion Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu | • Sefydlu 'Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol' sy'n darparu pecynnau gofal newydd o gymorth pontio byrdymor o'r maint cywir<br>• Buddsoddi mewn gwaith gwasanaethu a dadhalogi cyfarpar a phrynu cyfarpar newydd i gynorthwyo i ryddhau cleifion yn amserol<br>• Buddsoddi mwy mewn gwasanaethau gofal lliniarol cymunedol<br>• Mwy o welyau asesu / dros dro<br>• Sefydlu gwasanaeth gofal cartref 'Simply Safe'<br>• Tîm Amlddisgyblaethol 'bio-seico-gymdeithasol' newydd yn darparu ôl-ofal arbenigol i gleifion Covid-19<br>• Cymorth a chapasiti ychwanegol i gartrefi gofal er mwyn iddynt wrthweithio lefelau uchel o absenoldeb staff oherwydd Covid-19 |

Rhwystrwyd y gwaith o gyflawni cynlluniau D2RA fel rhan o'n cynllun gaeaf integredig gan amrywiol ffactorau, yn enwedig anawsterau o ran cael staff â'r sgiliau priodol oherwydd y pandemig a gosod embargo mewn cartrefi gofal, a oedd yn golygu nad oedd modd gwneud defnydd llawn o gyfleusterau camu i lawr a oedd wedi'u cynllunio. Serch hynny, yr arwyddion yw bod y rhaglenni hynny a oedd yn gallu symud ymlaen wedi cael effaith gadarnhaol ar lif ar draws y system, gan leihau hyd arosiadau mewn ysbytai a thrawsgludo o Adrannau Achosion Brys dros y cyfnod cyllido. Roedd y manteision ehangach o weithredu modelau newydd yn cynnwys:

- Mwy o ddealltwriaeth gyffredin ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol o bwysau ar draws y system
- Gwell arferion rhannu gwybodaeth yn cefnogi dull mwy rhanbarthol
- Brysbennu integredig yn galluogi gwell cydlynu a rhyddhau cleifion yn gyflymach
- Mae penodi gweithwyr cymdeithasol cynorthwyol ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ryddhau cleifion yn gyflym ac asesiadau yn y gymuned yn dilyn cyfnod o adferiad wedi gwella'r llif
- Adleoli staff therapïau o ofal acíwt i ofal yn y gymuned gan ddarparu cymorth uniongyrchol i gartrefi gofal
- Cyflwyno galwadau pwynt cyffwrdd sirol yn bwydo i mewn i alwadau dwysáu sefydledig y Bwrdd Iechyd, gan alluogi dull system gyfan
- Sefydlu Panel Dwysáu Trosglwyddiad newydd i adolygu'r rheiny sy'n cael eu hoedi ar lwybr ac i benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol

Rydym yn bwriadu prif ffrydio dulliau llwyddiannus o liniaru'r llif yn barhaol a sicrhau bod Gorllewin Cymru mewn sefyllfa dda i ddygymod â phwysau yn nhymor y gaeaf nesaf a/neu'r rheiny sy'n gysylltiedig ag unrhyw donnau dilynol o Covid-19. Mae'r Gronfa Graddio

Trawsnewid a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gyfle i atgyfnerthu a phrofi dulliau arloesol pellach yn y flwyddyn i ddod, cyn eu hehangu lle y bo'n briodol.


## Y blynyddoedd cynnar ac ataliaeth

Roedd dwy ffrwd ariannu arall gan Lywodraeth Cymru ar gael i gefnogi rhaglenni cydweithredol gyda'r nod o wella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc ac, yn fwy cyffredinol, gwella cymorth ataliol ar draws ystod o benderfynyddion iechyd yng Ngorllewin Cymru. Cawsom £200K i gefnogi ymyrraeth lefel isel i blant â phroblemau iechyd meddwl ac roedd hyn yn ein galluogi i fuddsoddi mewn datblygu a chyflwyno rhaglen o gymorth seicolegol a hyfforddiant sy'n ymwybodol o ymlyniad.

O dan y fenter 'Adeiladu Cymru Iachach', defnyddiwyd cyllid i gefnogi ystod o fentrau ataliol, gan gynnwys cymorth llesiant iechyd meddwl i bobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol, cyflwyno ein rhaglen rhoi'r gorau i ysmygu, rhedeg rhaglenni 'Bod yn Egnïol' ar gyfer pobl ifanc â lefelau uchel o angen, ehangu rhagnodi cymdeithasol ar draws y rhanbarth ac ehangu rhaglenni peilot clwstwr effeithiol megis cymorth cyn diabetes.

## Asesu effaith

Mae asesu effaith rhaglenni a ariennir yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae angen i ni ddysgu o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio fel bod modd cyfeirio adnoddau i'r mannau ble byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf cadarnhaol i ddefnyddwyr a gofalwyr ac yn helpu i liniaru'r pwysau ar y system iechyd a gofal.




Rydym wedi parhau i fireinio'r metrigau yr ydym yn monitro ein rhaglenni yn eu herbyn, gyda golwg ar sicrhau bod gennym olwg gytbwys ar faint yr ydym wedi gallu ei wneud, pa mor dda yr ydym wedi bod yn ei wneud a beth fu'r manteision i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Ochr yn ochr â mesurau meintiol, rydym hefyd yn defnyddio ein Ap Cysylltiadau Llesiant arloesol i olrhain y gwahaniaeth y mae ymyriadau'n ei wneud i fywydau unigolion a'u hymdeimlad o lesiant.

Gan gofio y bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch prif ffrydio dulliau llwyddiannus y tu hwnt i'r flwyddyn ariannu drosiannol, gyda phartneriaid yn ailgyfeirio cyllidebau craidd i gefnogi modelau gofal newydd, byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl o'r manteision ariannol ac enillion buddsoddi ein rhaglenni. Bydd hyn yn ein helpu i nodi'r lefel a'r gyfran gywir o fuddsoddiad sydd ei hangen gan bartneriaid ar gyfer y gweithgareddau hyn yn y cyfnod sydd i ddod.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein fframwaith canlyniadau rhanbarthol a fydd yn galluogi'r bartneriaeth i asesu i ba raddau y mae'r gweithgarwch cyfunol ar draws rhaglenni yn effeithio ar feysydd perfformiad allweddol, megis derbyn cleifion i'r ysbyty, nifer y pecynnau gofal a'r amser a dreulir gartref. Tra bod Covid-19 wedi golygu ei bod hi'n anodd gwneud dadansoddiad gwrthrychol o dueddiadau o fewn newidiadau'r system iechyd a gofal dros y

flwyddyn ddiwethaf, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fonitro ein llwybrau allweddol yn ofalus wrth i ni ddod allan o'r pandemig ac wrth i wasanaethau mwy arferol ailddechrau.

Rydym hefyd wedi dechrau ymarfer mapio mawr lle rydym yn plotio ein holl raglenni a ariennir ar draws ein llwybrau iechyd a gofal fel y gallwn gysoni gweithgarwch yn well, cymharu lefelau buddsoddi â chanlyniadau'r system, mynd i'r afael â meysydd o ddyblygu a nodi meysydd y mae angen adnoddau ychwanegol arnynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wneud penderfyniadau gwybodus a strategol am fuddsoddi yn y dyfodol, drwy unrhyw gyllid olynol gan Lywodraeth Cymru a chyllid craidd gan bartneriaid.

Yn olaf, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i werthuso ein prif raglenni yn gadarn ac yn barhaus. Tua diwedd y flwyddyn hon, penodwyd gwerthuswyr annibynnol newydd gennym i weithio gyda ni dros y deuddeg mis nesaf ar werthuso gweddill cyfnod y rhaglen Gorllewin Cymru Iachach. Byddwn hefyd yn cymryd rhan mewn gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Gofal Integredig, a fydd yn cynnwys nifer o gynlluniau a ariennir yng Ngorllewin Cymru, ac yn gweithio gydag ein Hyb Ymchwilio, Arloesi a Gwella i gymhwyso'r un fethodoleg ar draws rhannau eraill o raglen y Gronfa Gofal Integredig. Edrychwn ymlaen at rannu canlyniadau hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

# 3. Gwneud gwahaniaeth ar draws ein poblogaeth

O dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor (gan gynnwys dementia), pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr. Wrth gynnal asesiadau poblogaeth, disgwylir i Fyrddau hefyd ystyried anghenion pobl â nam ar y synhwyrau, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl awtistig, y mae'r Côd Ymarfer newydd ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn gosod cyfrifoldebau penodol ar Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol mewn perthynas â hwy.

Rhaid i ddulliau integredig gynnwys datblygu gwasanaethau, darparu gofal a chymorth ac atal ac ymyrraeth gynnar.

Yng Ngorllewin Cymru rydym wedi cynnal ffocws cyson ar bob un o'r grwpiau hyn yn ein rhaglen ranbarthol. Ein dull o weithredu yw ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o Covid-19, gan gyflawni yn erbyn y nodau lefel uchel yn ein Cynllun Ardal sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: [http://www.pggc-data.org.uk/SharedFiles/Download.aspx?pageid=98&mid=323&fileid=2](http://www.pggc-data.org.uk/SharedFiles/Download.aspx?pageid=98&mid=323&fileid=2).

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r newidiadau yr ydym wedi'u gwneud a'n cyfeiriad cyffredinol mewn perthynas â'r grwpiau hyn yn ein cymunedau.

## Awtistiaeth

Gwnaethom barhau i ddarparu ystod o gymorth drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) rhanbarthol a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig sy'n ategu cymorth ehangach i bobl awtistig yn y rhanbarth ac sy'n darparu asesiad diagnostig, cymorth a chyngor i oedolion awtistig ochr yn ochr â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Dros y flwyddyn gwnaethom:

- Gyflwyno llwybrau diwygiedig ar gyfer y gwasanaeth, gan gynnwys atgyfeiriadau diagnostig, atgyfeiriadau cymorth, sgriniadau cymorth, gwaith grŵp a gwaith rhithwir
- Cynnal adolygiadau o'r galw a'r capasiti i nodi meysydd ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd yn y gwasanaeth; fodd bynnag, oherwydd y pandemig a'i effaith ar lefelau staffio, efallai na fydd effaith y gwelliannau'n amlwg am beth amser
- Darparu ystod o gymorth gan gynnwys asesu, dros y ffôn, trwy e-bost, trwy negeseuon testun a thrwy fideo-gynadledda dros gyfnod y pandemig, a hynny gan barhau i weld pobl wyneb yn wyneb lle'r oedd yna lefelau uchel o risg glinigol
- Sefydlu canolfan wybodaeth rithwir trwy'r hon y mae clinigwyr a gweithwyr cymorth wedi rhoi cymorth a chyngor i bobl awtistig a'u teuluoedd
- Cynnal ymgynghoriadau rhithwir
- Cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb a hyfforddiant rhithwir i unigolion ar ôl iddynt gael diagnosis o awtistiaeth

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried sut i gysoni'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ymhellach â gwasanaethau NiwroDdatblygiadol plant; ceisio lleihau rhestrau aros gan ddefnyddio ystod o ddulliau megis gwaith grŵp a hyfforddiant a datblygiad

ar gyfer gwasanaethau eraill; ac asesu sut yr ydym yn cynnal darpariaeth deg gan fod llawer o wasanaethau'n cael eu darparu trwy dechnoleg.

Bydd y Côd Ymarfer arfaethedig ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yn gosod cyfrifoldebau newydd ar Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol, gan gynnwys yr angen i gael trefniadau llywodraethu penodol ar gyfer awtistiaeth o dan y Bwrdd, gofyniad penodol i ystyried anghenion pobl ag awtistiaeth o fewn Asesiadau Poblogaeth rhanbarthol a datblygu timau strategol a gweithredol gyda phobl awtistig arnynt i lywio datblygiad gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi dechrau ystyried y gofynion hyn a bydd yn bwrw ymlaen â'r gwelliannau angenrheidiol dros y flwyddyn i ddod.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru yn

https://autismwales.org/cy/gwasanaeth-awtistiaeth-integredig/gorllewin-cymru/

## Plant a phobl ifanc

Yn ystod 2020-21 gwnaethom sefydlu grŵp plant a phobl ifanc rhanbarthol newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o asiantaethau partner statudol a'r trydydd sector, a fydd yn gyfrifol yn y dyfodol am sicrhau bod pobl yng Ngorllewin Cymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r grŵp hwn yn dod ynghyd â gweithwyr addysg proffesiynol o amgylch y bwrdd. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc yn y rhanbarth a sicrhau bod yr ystod gywir o ofal a chymorth ataliol, cymunedol a statudol ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae gofynion newydd o fewn y Canllawiau Statudol diwygiedig ar gyfer Rhan 9 o'r Ddeddf, sy'n pwysleisio'r angen i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol flaenoriaethu'r broses o integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn allweddol i'n rhaglen sy'n datblygu, yn ogystal â'r argymhellion yn Adroddiad y Comisiynydd Plant 'Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant’ a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Mae'r adroddiad yn gosod her glir i asiantaethau gydweithio'n well i ddarparu cymorth di-dor ac ymatebol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl.



Yn ein cynllun gweithredu rhanbarthol a ddatblygwyd mewn ymateb i'r adroddiad Dim Drws Anghywir gwnaethom ymrwymiadau clir o safbwynt cael gwell dealltwriaeth o ba wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a chyfleoedd i wella ac integreiddio'r gwasanaethau hynny ymhellach, dull mwy strategol o ddefnyddio cyllid rhanbarthol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion a chynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau ac yn fwy cyffredinol yng ngwaith y Bartneriaeth.

Er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd yn yr adroddiad, ein nod yw bwrw ymlaen â rhaglen flaenllaw y flwyddyn nesaf i ddarparu llety diogel a chymorth

amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, gan atal yr angen am ofal diogel neu ofal cleifion mewnol a chynorthwyo pobl i ddod allan o ofal o'r fath. Rydym wedi gwneud cais am gyllid refeniw'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen hon ac rydym hefyd yn buddsoddi Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu canolfan ranbarthol sy'n darparu uned arsylwi ac asesu ganolog, gyda chefnogaeth tair canolfan leol sy'n cynnig llety tymor byr i blant pan fo angen wrth iddynt dderbyn y model newydd hwn o gymorth. Rydym yn edrych ymlaen at adrodd ar gynnydd dros y flwyddyn i ddod.

Rydym yn gobeithio cryfhau ymhellach y trefniadau gofal a chymorth ar gyfer plant ag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl drwy ddod yn fabwysiadwyr cynnar y Fframwaith Help a Chymorth Cynnar cenedlaethol sy'n cael ei weithredu fel rhan o'r rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (TCYP). Gelwir y fframwaith hefyd yn 'NYTH', ac mae'n offeryn ar gyfer cynllunio iechyd meddwl, llesiant a chymorth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ledled Cymru.  Mae'r Fframwaith wedi'i gyd-gynhyrchu gan y bobl hyn ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ac mae wedi'i gynllunio i helpu partneriaid o fewn rhanbarth i gydlynu gofal yn well, o gymorth ataliol, ar lefel isel i wasanaethau arbenigol, gwella cysondeb a sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i'r rheiny y mae eu hangen arnynt. Os bydd yn llwyddiannus, bydd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn cael cymorth gan bartneriaid cenedlaethol i weithredu'r fframwaith yng Ngorllewin Cymru, fel galluogwr allweddol i wella canlyniadau yn y maes hollbwysig hwn. Unwaith eto, bydd hyn yn hanfodol i'n helpu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad y Comisiynydd Plant.

Rydym hefyd wedi gwneud gwaith sylweddol i wella trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gytuno mewn egwyddor i sefydlu panel rhanbarthol ar gyfer comisiynu lleoliadau i blant ag anghenion cymhleth a threialu System Dyrannu Adnoddau (RAS), ar gyfer paru adnoddau a ddarperir ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd â'r angen a aseswyd, yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y ddwy fenter hyn yn cael eu datblygu ymhellach dros y flwyddyn i ddod.

## Dementia

Disgwylir i nifer yr achosion o ddementia yng Ngorllewin Cymru (a Chymru yn gyffredinol) godi'n ddramatig dros y degawdau nesaf. Ar draws y rhanbarth, mae nifer yr achosion o ddiagnosis yn debygol o ddyblu bron, o 2,812 i 4,200. Mae bwlch tebygol mewn diagnosisau o ryw 50% yn golygu bod gwir nifer y bobl sy'n byw gyda dementia a nifer yr achosion yn y dyfodol yn sylweddol uwch.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22 yn nodi strategaeth i Gymru ddod yn genedl sy'n ystyriol o ddementia yn seiliedig ar hawliau pobl â dementia i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen dull traws-sector, wedi'i gyd-gynhyrchu, er mwyn darparu gofal a chymorth effeithiol i bobl â dementia. Darperir cyllid i'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol i gefnogi dulliau o'r fath a dyrannwyd £1.2m i Orllewin Cymru at y diben hwn yn 2020-21. Mae hyn wedi ein galluogi i barhau i wella gwasanaethau ar draws llwybr gofal a chymorth 3 cham, gyda'r cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Cwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n amlygu lle mae angen addysg a chymorth ychwanegol i sicrhau bod gweithwyr ar draws y sectorau iechyd, gofal a chymorth yn gallu cydnabod anghenion pobl â dementia a'u gofalwyr ac ymateb yn briodol iddynt. Bydd hyn yn llywio rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i staff yn 2021-22

- Penodi 7 'Nyrs Admiral' ar draws Gorllewin Cymru, sy'n gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau ac yn darparu cymorth un-i-un, arweiniad arbenigol ac atebion ymarferol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd pan fydd heriau ac anawsterau'n codi
- Sefydlu Tîm Llesiant Dementia sy'n rhoi cymorth i unigolion a gofalwyr mewn amrywiaeth o leoliadau i leihau trallod, sy'n aml yn ymddangos fel ymddygiad heriol mewn pobl sy'n byw gyda dementia

Fel Partneriaeth, rydym yn awyddus i atgyfnerthu'r datblygiadau cadarnhaol hyn ac i sicrhau dull cyson ar draws y rhanbarth, gan sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. I'n helpu ar y daith hon, yn gynnar yn 2021 penodwyd ymgynghorwyr allanol gennym i weithio gyda ni ar ddatblygu Strategaeth Dementia ranbarthol ac adolygu ein rhaglen Cronfa Gofal Integredig, a gynlluniwyd fel bod ein dull yn adlewyrchu'r arferion gorau cydnabyddedig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a bod ein hadnoddau ar y cyd yn cael eu buddsoddi'n ddoeth. Disgwyliwn i Strategaeth ddrafft fod ar gael erbyn canol 2021 ac rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n helaeth â phobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol o bob sector, gan gyd-gynhyrchu'r atebion cywir ar gyfer ein rhanbarth a sicrhau perchnogaeth ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid.

## Anableddau Dysgu

Mae ein Partneriaeth Gwella Bywydau ranbarthol wedi parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi nodau ein Cynllun Ardal a'r rheiny a nodir yn y siarter arloesol sef Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru. Datblygwyd y Siarter hon gan y '*Dream Team*', sef grŵp o bobl ag anableddau dysgu o bob rhan o Orllewin Cymru, ac mae'n unigryw i'n rhanbarth. Ei nod yw rhoi mwy o amlygrwydd i faterion sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu, hyrwyddo eu hawliau, gwella eu mynediad at wasanaethau, cyfleusterau busnes a hamdden a grymuso pobl i gyd-gynhyrchu atebion yn y dyfodol.

Yn y bôn, rydym bob amser yn arfer dull galluogol. Mae'r gweithgarwch allweddol eleni, gyda chefnogaeth y Gronfa Gofal Integredig, wedi cynnwys:

- Cynorthwyo unigolion i hyrwyddo'r Siarter ymhlith amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau eraill
- Cynghori cydweithwyr ym Mhowys mewn perthynas â sefydlu *Dream Team* a datblygu Siarter
- Datblygu Ap teithio a fydd yn cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i ddefnyddio'r system trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol ac yn hyderus
- Cyflwyno prosiect cyflogaeth a hyfforddiant sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli, gwaith cyflogedig a hyfforddiant
- Cyflwyno'r prosiect 'Bydi Ymarfer Corff', gan ddarparu sesiynau wedi'u hwyluso ar-lein
- Darparu pecynnau gweithgareddau i bobl a fyddai fel arfer yn mynychu canolfannau dydd ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny oherwydd y pandemig
- Darparu cymorth pwrpasol i bobl ag anableddau dysgu i'w helpu i gael mynediad i lety â chymorth, sy'n cael ei ddatblygu trwy Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig

Gwnaethom hefyd gomisiynu adolygiad manwl o lety arbenigol Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl yn y rhanbarth, gan fapio hyn yn erbyn anghenion rhagamcanol y dyfodol er mwyn llywio cynlluniau comisiynu ar y cyd yn y dyfodol.

## Iechyd Meddwl



Ni fu blaenoriaethu iechyd meddwl erioed yn fwy allweddol wrth i ni ddod allan o'r pandemig yn ystod y misoedd nesaf. Mae effeithiau cadw pellter cymdeithasol, cyfyngiadau symud, a cholli anwyliaid i'r feirws yn cael effaith enfawr ar iechyd meddwl a llesiant a bydd yn cael effaith barhaol ar iechyd meddwl ein poblogaeth. Bydd llawer yn teimlo effeithiau parhaol trawma a phwysau economaidd difrifol - y rheiny sy'n gweithio ar y rheng flaen, y rheiny sydd wedi treulio misoedd ar eu pen eu hunain, y rheiny sydd wedi colli eu bywoliaeth a phobl ifanc sydd wedi colli eu rhwydweithiau cymorth. Bydd yna effaith hirdymor ar gyfer unigolion mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd nad ydynt wedi gallu gweld ei gilydd ers misoedd lawer.

Mae agweddau ar strategaeth ranbarthol y Byrddau Iechyd, sy'n cyd-fynd â Thrawsnewid Iechyd Meddwl, wedi'u cyflymu yn ystod y Pandemig, er mwyn darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl estynedig a mwy effeithlon. Y disgwyl yw y bydd y gwelliannau hyn yn parhau yn y tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad gwerthusiadau priodol. Isod gwelir enghreifftiau penodol o waith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu cynllun peilot ar gyfer Pwynt Cyswllt Sengl Iechyd Meddwl (SPOC) drwy'r gwasanaeth 111 cenedlaethol. Cynllun peilot rhanbarthol yw hwn ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae strwythur y cynllun peilot yn golygu bod gofal lleol yn cael ei ddarparu gan dimau ardal drwy'r rhif cenedlaethol, y tynnwyd sylw ato fel angen gwasanaeth yn sgil yr ymgynghoriad Trawsnewid Iechyd Meddwl. Mae'r cynllun peilot yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 6.30pm a 10.30pm ac ar ddydd Sadwrn a dydd Sul rhwng 2.00pm – 10.00pm gyda'r bwriad o weithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos erbyn mis Ebrill 2022. Yn unol â hyn, sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen gydag awdurdodau lleol a bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys partneriaid y Trydydd Sector, WAST, meddygon teulu a'r Heddlu i gytuno ar fodel gwasanaeth sy'n caniatáu i unigolion gael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion yn dilyn ymgynghoriad/brysbennu gan weithwyr proffesiynol SPOC o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Wrth ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig, mae partneriaid yn datblygu ymyriadau iechyd meddwl digidol i gyrraedd pobl mewn grwpiau cymdeithasol-economaidd/daearyddol/diwylliannol ddifreintiedig ac yn y flwyddyn ariannol newydd

byddant yn lansio menter 'Brain in Hand' newydd sy'n rhoi mynediad i unigolion at strategaethau cymorth ac ymdopi drwy eu ffonau.

- Yn sgil y pandemig rydym hefyd wedi sefydlu Hyrwyddwyr Gofalwyr ym mhob un o'r timau gwaith cymdeithasol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Hyrwyddwyr hyn yn sicrhau bod proffil Gofalwyr yn cael ei godi yn y timau a bod asesiadau gofalwyr yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn gweithredu fel pwyntiau canolog ar gyfer gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gofalwyr. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflwyno'r model hwn ar draws y rhanbarth os dangosir ei fod yn llwyddiannus.

- Mae ein holl Dimau Triniaeth Gartref i Ddatrys Argyfwng (CRHTs) a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHTs) wedi'u cyd-leoli i ddarparu triniaeth ddwys gartref neu asesiad cymunedol. Mae'r gwasanaeth estynedig hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau gael mwy o fynediad at y tîm ac i staff weithio'n fwy hyblyg gyda llai o staff yn ein hadeilad er mwyn cadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol. Rydym yn cynyddu'r capasiti am waith cymdeithasol o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol i hyrwyddo cysylltiadau â chymorth cymunedol i bobl ag anghenion Iechyd Meddwl.

- Mae Gwasanaeth Cyswllt Seiciatrig yn cael ei ddatblygu ar draws pedwar Ysbyty Cyffredinol y Rhanbarth. Mae'r Gwasanaeth yn darparu un tîm cyswllt ar draws gwahanol oedrannau/arbenigedd ar draws ardal Hywel Dda ar gyfer oedolion, oedolion hŷn ac unigolion ag anableddau dysgu.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydlu cynllun trawsgludo 6 mis ar draws ardal y bwrdd iechyd i gefnogi llif defnyddwyr gwasanaethau i leoliadau cleifion mewnol ac allan ohonynt. Caiff y gwasanaeth ei weithredu gan Ambiwlans Sant Ioan Cymru ac mae'n darparu 1 cerbyd llawn amser gyda chriw. Mae'n gweithredu rhwng 10.00am a 10.00pm 7 diwrnod yr wythnos, y tu allan i'r oriau hyn (10.00pm – 10.00am) mae system ar alwad ar waith. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda thros 72 o drawsgludiadau wedi'u cynnal ers 1 Mai, sydd wedi lleihau amser staff y GIG a sefydliadau partneriaeth yn sylweddol o ran gorfod darparu cludiant. Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso gan Lywodraeth Cymru er mwyn pennu anghenion a gofynion ariannu yn y dyfodol.

- Yn dilyn llwyddiant y Gwasanaeth 'Noddfa Min Nos' yn Llanelli, sef menter dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n darparu gwasanaeth integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid y Trydydd Sector, sefydlwyd ail gynllun peilot yn Sir Benfro. Mae'r Gwasanaethau hyn yn cynnig noddfa i oedolion sydd mewn perygl o ddioddef dirywiad yn eu hiechyd meddwl, ar adeg pan fo gwasanaethau eraill ar gau ac maent yn hanfodol i'n helpu i fodloni'r gofynion cynyddol sydd ar ein gwasanaeth. Ym mis Ionawr 2021, mae'r ddau Wasanaeth Noddfa wedi ymestyn y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i gynnwys gwasanaeth Gwely Lletygarwch. Gwasanaeth Noddfa Sir Gaerfyrddin oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw ato fel maes o arfer da a'r gobaith yw y bydd y model yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru.

- Gan adeiladu ar ein hadolygiad o lety arbenigol ar gyfer Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl, rydym yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol o newid a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl ac yn darparu mwy o opsiynau yn y gymuned sy'n hyrwyddo dewis ac annibyniaeth. Hyd yma rydym wedi galluogi 20 o unigolion i gamu i lawr o ofal preswyl i amgylcheddau byw â chymorth. Bydd hyn yn parhau i gael effaith ddofn ar ganlyniadau i

unigolion. Fel y dywedodd un nyrs gymunedol ar ôl siarad â chlaf a oedd wedi camu i lawr o ofal preswyl:

***"Wi newydd siarad â Mr T. Roedd mor hyfryd. Mae e mor hapus 'Joio, Joio', wedodd e. Mae'n dweud ei fod wedi bod 'ym mhobman'. Mae e wedi bod yn chwarae pêl-droed y tu fas gyda'r staff, mae'n hapus i rannu gorchwylion fel sychu a golchi llestri gyda X. Mae'n edrych ymlaen at y dyfodol ac yn sôn am ddychwelyd i'w holl swyddi a chlybiau. Mae e hefyd yn edrych ymlaen at fynd ar wyliau."***

Mae partneriaid ar draws Canolbarth a De-orllewin Cymru hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull cydweithredol o leihau hunanladdiad a hunan-niweidio, gan adlewyrchu blaenoriaethau o fewn Strategaeth Atal 'Siarad â Mi 2' Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae'r gwaith hwn yn hynod bwysig yn sgil y pandemig Covid-19.

## Pobl hŷn

Bu rhaglenni trawsnewid mawr a gefnogir drwy'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, y darperir manylion amdanynt mewn mannau eraill yn yr Adroddiad hwn, yn allweddol wrth ddod â phartneriaid at ei gilydd i ddarparu gofal a chymorth i bobl hŷn mewn ffyrdd integredig ac arloesol. Pobl hŷn hefyd sydd wedi elwa fwyaf o gynlluniau a gefnogwyd trwy gyllid Rhyddhau ychwanegol dros y deuddeg mis diwethaf, er nad hwy yn unig sydd wedi elwa o hyn. Gyda'i gilydd, mae'r ystod o fentrau'n helpu i sicrhau y gall pobl hŷn aros gartref, lle y bo'n briodol gyda chymorth lefel isel a rhagweithiol ac, yn yr achosion hynny lle mae'n rhaid eu derbyn i'r ysbyty, eu bod yn gallu dychwelyd adref neu i leoliad preswyl cyn gynted â phosibl.



Mae enghreifftiau o'n dull, sy'n gweithredu o dan egwyddorion rhanbarthol cyffredin, yn cynnwys:

- Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i helpu i gadw pobl gartref am fwy o amser, er enghraifft trwy Brosiect Cefnogi Unedig Sir Gaerfyrddin a Thîm Mudiadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro (PIVOT), a ariennir ill dau trwy'r Gronfa Gofal Integredig
- Cefnogi dinasyddion oedrannus a dinasyddion eraill sy'n agored i niwed trwy hyrwyddo gwirfoddoli a charedigrwydd – darperir mwy o wybodaeth yn Adran 2
- Gwelliannau i ofal canolraddol a gofal hirdymor trwy sefydlu timau integredig sy'n cynnwys ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, megis Porth Gofal yng Ngheredigion a Thimau Amlddisgyblaethol yn y siroedd eraill yn y rhanbarth sy'n parhau i ddarparu gofal di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Datblygu gwasanaethau ymateb i argyfwng trwy'r rhaglen drawsnewid Integreiddio Cyflym a Chyson – gan gynnwys timau Ymateb Acíwt (ART) gwell yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro - gydag ehangu modelau integredig ymhellach yn bosibl trwy gyllid Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gynorthwyo i ryddhau cleifion yn effeithiol

- Darparu gwasanaethau blaen yr ysbyty, helpu i atal derbyniadau o Adrannau Achosion Brys a darparu dull trawsasiantaethol o ryddhau cleifion yn gynt

Rydym wedi bod yn cydweithio i gynorthwyo darparwyr gofal i gynnal gwasanaethau trwy gydol y pandemig ac i ddefnyddio'r profiad a gafwyd yn ystod y 12 mis diwethaf wrth gynllunio ar gyfer adferiad. Yn benodol rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cytuno ar Gynllun Gweithredu Cartrefi Gofal ar gyfer y rhanbarth, gan adeiladu ar enghreifftiau lleol o arfer da, a chan adlewyrchu argymhellion adolygiad cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r modd yr oedd cartrefi wedi ymateb i'r don gyntaf o Covid-19 a nodi gwelliannau ar gyfer y dyfodol

- Datblygu Cynllun Wrth Gefn - Methiant Cartrefi Gofal ar gyfer y rhanbarth, wedi'i gynllunio i liniaru yn erbyn y risg o fod y system yn methu mewn tonnau dilynol

- Fframweithiau rhanbarthol mabwysiedig ar gyfer Rhyddhau i Adfer ac Asesu ac Uwchgyfeirio Risg mewn Cartrefi Gofal – mae'r rhain wedi bod yn amhrisiadwy wrth gysoni ymarfer ar draws y rhanbarth a datblygu ymarfer effeithiol

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi parhau i gynhyrchu adroddiadau rheolaidd, cyfunol ar gartrefi gofal pobl hŷn fel rhan o'n trefniant cronfa gyfun rithwir, gan helpu partneriaid i nodi anghysondebau a meysydd i'w gwella a chefnogi dull integredig o ddatblygu'r sector wrth symud ymlaen. Rydym hefyd wedi cytuno ar gynllun gweithredu rhanbarthol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan KPMG yn eu hadolygiad o'n trefniadau cronfeydd cyfun; bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio yn y maes hwn. Bydd Cytundeb Cyn Lleoli rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn yn destun ymgynghoriad yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd ac yn cael ei weithredu o fis Medi 2021.

Dros gwrs y flwyddyn rydym wedi parhau i sefydlu ein platfform dwyieithog arloesol 'Canfodlle' sy'n rhoi gwybodaeth amser real i ddinasyddion a chomisiynwyr am swyddi gwag ac sy'n hwyluso'r gwaith o adrodd yn erbyn ein set ddata ranbarthol ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal.

## Nam ar y synhwyrau

Yn 2020-2021 gwnaethom gynnydd pellach wrth gyflawni ein hymrwymiad i godi proffil nam ar y synhwyrau a dealltwriaeth o'r cyflwr, a sicrhau bod mynediad priodol at ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i bobl â nam ar y synhwyrau ar draws ein rhanbarth. Yn benodol rydym wedi gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth am Covid-19 a chanllawiau ar y brechlynnau ar gael mewn amrywiaeth o fformatau

- Cyflwyno gwasanaethau dehongli ar-lein y gellid eu defnyddio gyda phlatfformau eraill, gan gynnwys Attend Anywhere

- Parhau i ymgorffori codi ymwybyddiaeth mewn sesiynau ymsefydlu i staff newydd

- Monitro effaith cyfyngiadau Covid-19 ar bobl â nam ar y synhwyrau, gan weithio'n rhagweithiol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag anawsterau sy'n dod i'r amlwg

- Cyflwyno dulliau newydd sy'n galluogi gwybodaeth am ofal cymdeithasol i fod ar gael ar ffurf sain ac i gael ei lledaenu'n gyflym ar gais

- Gweithio gydag unigolion i'w helpu i nodi'r cymorth sydd ei angen arnynt, gan ganolbwyntio ar gryfderau unigol a sicrhau bod cymorth yn y gymuned ar gael i'w cynorthwyo i gyflawni canlyniadau llesiant personol

Byddwn yn parhau i ddysgu o ddatblygiadau newydd ac yn gwella'r cymorth ymhellach dros y flwyddyn i ddod.

## Gofalwyr di-dâl

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur o ddatblygu cymorth i ofalwyr di-dâl yn ein rhanbarth. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) wedi parhau i gydlynu gwaith ac, er gwaethaf nifer o fentrau arfaethedig nad ydynt yn gallu symud ymlaen oherwydd Covid-19, rydym wedi gallu datblygu meysydd gwaith pwysig, gan gynnwys:

- Cyhoeddi 305 o Gardiau Adnabod i Ofalwyr yng Ngheredigion fel rhan o fenter genedlaethol, gan roi mynediad i ofalwyr ifanc at wasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr a'u galluogi i hysbysu archfarchnadoedd, fferyllfeydd, athrawon ac eraill bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Mae yna gynlluniau i gyflwyno'r fenter ar draws y rhanbarth

- Parhau i gyflwyno'r Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, gan gynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o anghenion gofalwyr ar draws sectorau gan gynnwys gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac acíwt, ysgolion, llyfrgelloedd, gofal cymdeithasol, y Ganolfan Byd Gwaith a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r cynllun hefyd yn galluogi pobl i gofrestru fel gofalwr gyda'u meddyg teulu, gan arwain at atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr lleol a all ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ychwanegol

- Defnyddio Swyddogion Gofalwyr (a gyflogir gan y trydydd sector) mewn ysbytai i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi gofalwyr di-dâl, gwella'r rhan y maent yn ei chwarae yn y broses ryddhau a darparu gwybodaeth a chymorth. Yn ystod y pandemig cyflwynwyd y rôl hon o bell i 303 o deuluoedd

- Parhau i gyflwyno'r rhaglen Cyflwyniad i Ofalu Amdanaf i (I2LAM) ar gyfer gofalwyr ledled Gorllewin Cymru, gan helpu gofalwyr i ddysgu sgiliau newydd a gofalu am eu hiechyd eu hunain wrth ofalu am rywun arall.

- Cyflwyno'r Rhaglen Cydnerthedd a Llesiant Gofalwyr, gan roi sgwrs 'beth sy'n bwysig' i ofalwyr a chymorth priodol gan gynnwys ymyriadau ataliol a seibiant

- Sefydlu'r Gronfa Arloesi Cymorth i Ofalwyr ranbarthol sy'n cynnig cyllid tymor byr i sefydliadau'r trydydd sector er mwyn iddynt ddarparu cymorth i ofalwyr. Mae'r mentrau a gefnogir yn cynnwys sesiynau ffitrwydd corfforol, digwyddiadau hel atgofion chwaraeon, sesiynau crefft a chymdeithasol ar-lein a chymorth wedi'i dargedu i ofalwyr hŷn

- Cyflwyno'r cynllun Employers for Carers (EfC) sy'n cynorthwyo partneriaid statudol i adolygu polisïau a gweithdrefnau trwy lygad gofalwr a chynnig cymorth ymarferol i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu

- Amrywiol fentrau cynhwysiant digidol i gynorthwyo gofalwyr yn ystod y pandemig, gan gynnwys Partneriaethau Cysylltiadau Digidol Sir Benfro sy'n cynorthwyo pobl, gan gynnwys gofalwyr, i gael mynediad at gyfarpar digidol a thechnoleg

Ym mis Tachwedd 2020 cymeradwywyd strategaeth 5 mlynedd newydd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o'r enw 'Gwella Bywydau i Ofalwyr’. Mae'r strategaeth, a gaiff ei llywio gan ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr lle cymerodd mwy na 500 o bobl ran, yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau clir ar gyfer y rhanbarth wrth symud ymlaen. Mae'n cynnwys pedwar nod allweddol:

- Gwella'r broses o adnabod gofalwyr yn gynnar a hunan-adnabod ymysg gofalwyr gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc
- Sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi llesiant gofalwyr o bob oed, yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu
- Cynorthwyo gofalwyr i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Cynorthwyo gofalwyr i gael eu cynnwys yn ddigidol

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd drwy'r rhaglen gofalwyr ar gael yn adroddiad blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, y gellir ei gyrchu yma: https://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2021/07/WWCDG-Annual-Report-2021-21-FINAL-Cymraeg.pdf

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, o dan Ddeddf VAWDASV 2015, cyhoeddodd Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru Strategaeth VAWDASV - Bywydau Diogel, Teuluoedd Iachach ym mis Tachwedd 2018. Goruchwylir y Strategaeth Ranbarthol a'r Cynlluniau Cyflawni Blynyddol gan yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a Bwrdd Strategol VAWDASV.

Drwy gydol 2020-21 bu'n rhaid i'r rhanbarth wneud newidiadau sylweddol i'r cynllun cyflawni blynyddol arfaethedig, o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn ein galluogi i fod yn arloesol a manteisio ar gyfleoedd i fynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu gwasanaethau sy'n benodol i Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

Ymhlith y meysydd gweithgarwch allweddol yn 2020-21 yr oedd:

- Dadansoddiad o arfer da presennol mewn perthynas ag ymgysylltu â goroeswyr, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol, i lywio adroddiad argymhellion a fydd yn llywio ein fframwaith ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Cyfrannu at yr Adolygiad Unedig Sengl Cenedlaethol o Ddiogelu (SUSR) trwy Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau model cyson ac sy'n seiliedig ar arfer gorau i gefnogi ac arwain y modd y cynhelir Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Gweithio gydag arweinwyr diogelu ym maes addysg i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd fynediad at TG a chyfarpar hanfodol arall drwy gydol y cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn sicrhau bod prosesau diogelu a mynediad at gymorth arbenigol yn cael eu cynnal.

- Darparu tri ymyriad cyflawnwr Cam-drin Domestig arbenigol ar draws y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys treialu opsiynau cyflawni rhithwir ac ymyriad penodol i stelcio a ddatblygwyd gyda'r Athro Jane Monckton-Smith.
- Gweithio i sefydlu ymateb rhanbarthol cyson i Gam-drin Rhieni gan Blant, gan gynnwys polisi rhanbarthol, hyfforddiant rhanbarthol a dogfen mynediad at gymorth ranbarthol.
- Cwmpasu cynllun peilot rhanbarthol o'r rhaglen IRIS I ar draws clystyrau meddygon teulu ledled Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i Adolygiadau Dynladdiad Domestig rhanbarthol. Bydd hyn yn gwella'r broses o nodi Cam-drin Domestig yn gynharach a chysylltiadau rhwng gofal sylfaenol a darparu cymorth arbenigol VAWDASV.
- Cyflawni'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan addasu ein pecyn hyfforddi rhanbarthol er mwyn ei gyflwyno ar-lein ar draws y rhanbarth. Gwnaethom hefyd gwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar gyfer ein timau staff gwasanaeth arbenigol.
- Gweithio i sefydlu Manyleb Gwasanaeth VAWDASV Ranbarthol a fydd yn llunio ac yn llywio gweithgarwch comisiynu VAWDASV ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth VAWDASV mewn modd arloesol a chyfannol.

Llwyddom i sicrhau dros filiwn o bunnoedd o gyllid ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Galluogodd hyn ni i gynyddu'r capasiti ar draws gwasanaethau arbenigol VAWDASV i ateb y galw cynyddol am wasanaethau VAWDASV o ganlyniad i'r pandemig.

Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn archwilio cyfleoedd i gydweithio'n agos rhwng bwrdd strategol VAWDASV a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, er mwyn helpu i sicrhau bod egwyddorion y strategaeth yn rhan annatod o'n rhaglen waith ac i hwyluso dysgu ar y cyd o amgylch meysydd allweddol megis comisiynu ac atal.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am VAWSAV yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru trwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.cysur.wales/vawdasv/

## 4. Ymchwilio, Arloesi a Gwella

Fel y soniwyd yn Adran 2, dyrannwyd cyllid i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru o Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o sefydlu Hyb Cydlynu Ymchwilio, Arloesi a Gwella (RIICH) yn y rhanbarth. Fel un o saith sy'n cael eu sefydlu ledled Cymru, sefydlwyd RIICH Gorllewin Cymru mewn ymateb i un o'r deg o egwyddorion dylunio a nodir yn Cymru Iachach, sef 'Seiliedig ar dystiolaeth - defnyddio ymchwil, dysg a gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio; dysgu drwy weithio gydag eraill; defnyddio arloesi a gwelliannau i ddatblygu a gwerthuso gwell arfau a ffyrdd o weithio'.

Gyda'r diben craidd o ddwyn ynghyd yr holl weithgarwch ymchwilio, arloesi a gwella (RII) yn y rhanbarth a chefnogi dull o newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd RIICHs yn adnodd allweddol i bartneriaethau rhanbarthol wrth gefnogi'r gwaith o weithredu modelau gofal newydd.

Aeth ein hyb yn fyw ym mis Awst 2020 trwy sefydlu tîm bach, arbenigol sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran bwrw ymlaen â'r agenda hon ar gyfer y rhanbarth. Mae'r cyflawniadau allweddol yn yr wyth mis cyntaf o weithredu yn cynnwys:

Datblygu diwylliant o ymchwilio, arloesi a gwella ar gyfer Gorllewin Cymru:

- Cwblhau ymarfer mapio cynhwysfawr gan Brifysgol Abertawe, wedi'i lywio gan waith ymgysylltu helaeth ag ystod eang o bartneriaid, i nodi gweithgarwch RIIC cyfredol ar draws iechyd a gofal yn y rhanbarth, asedau cyfredol, rhwystrau a chyfleoedd i ehangu. Bydd yr adroddiad dilynol yn sbardun allweddol ar gyfer gwella dros y cyfnod sydd i ddod a bydd yn destun digwyddiad dysgu mawr yn gynnar yn y flwyddyn newydd

> 'Mae'n ymddangos bod cyfle i gorff cydlynu canolog chwarae rhan yn y gwaith o oruchwylio a rheoli gweithgarwch ymchwilio, arloesi a gwella yn effeithiol ar draws meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru. Gallai ymyrraeth o'r fath leihau cymhlethdod ymchwilio, arloesi a gwella ar lefel prosiect, sefydliadol ac ecosystem …
>
> Gallai'r rolau gynnwys; nodi enghreifftiau o arferion da o ran ymchwilio, arloesi a gwella yn y rhanbarth gyda'r gallu i'w lledaenu a'u graddio; gwella cyfathrebu ar draws yr holl randdeiliaid o fewn yr ecosystem ranbarthol ... a thu hwnt; darparu pwynt cyswllt cyson a dibynadwy i'r holl bartneriaid …; ac adeiladu capasiti sganio'r gorwel fel ffordd o fewnforio arfer da o ranbarthau eraill ochr yn ochr â chyfleu ac allforio enghreifftiau o ymchwilio, arloesi a gwella o ansawdd uchel o ranbarth Gorllewin Cymru'
>
> Adroddiad Tirwedd Ymchwilio, Arloesi a Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe, 2020

- Lansio gwefan Ymchwilio, Arloesi a Gwella a gynhelir gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a darparu dolenni i amrywiaeth o sefydliadau a deunyddiau perthnasol, gweler y ddolen ganlynol: https://www.wwcp.org.uk/yr-hyb-cydgysylltu-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/rhestr-asedaur-ganolfan-riic-academia/?lang=cy

- Sefydlu rhwydwaith rhanbarthol 'Esiamplau Bevan' i hyrwyddo a chefnogi arloesedd a gwelliant yng Ngorllewin Cymru a chefnogi'r gwaith o 'fabwysiadu a lledaenu' dulliau llwyddiannus

- Sefydlu partneriaethau strategol:

- Gwaith cychwynnol gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig Cymru a RIICHs Gogledd Cymru a Phowys i wella'r gefnogaeth i ymchwilio ac arloesi mewn ardaloedd gwledig
- Datblygu cysylltiadau â Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n cefnogi arferion cydweithio ar draws sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac ymchwil i sbarduno arloesedd a gwelliant, er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu â gofal cymdeithasol yn y rhanbarth
- Cyfrannu at weithgarwch ymchwil a gwerthuso Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH)
- Trafodaethau rhanbarthol gydag Accelerate – cynllun cenedlaethol sy'n cynorthwyo mentrau i ddatblygu arloesedd, trosi syniadau'n atebion a'u cysylltu â phartneriaid academaidd

- Adolygu a gwerthuso arferion:
    - Adolygiad o rolau rhagnodydd cymdeithasol a chysylltydd cymunedol ar draws y rhanbarth fel rhan o'r rhaglen trawsnewid Creu Cysylltiadau i Bawb
    - Dadansoddiad o farwolaethau mewn cartrefi gofal yn ystod ton gyntaf Covid-19
- Asesu effaith Covid-19:
    - Cyfrannu at adroddiad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar yr effaith a ragwelir ar draws grwpiau poblogaeth
    - Cwblhau ymarfer profiad staff o fewn y GIG i ddeall arferion gwaith yn ystod y pandemig a chasglu gwersi i lywio arferion gweithio yn y dyfodol

Tua diwedd y flwyddyn penodwyd partneriaid allanol gennym i weithio gyda Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i ddatblygu fframwaith Ymchwilio, Arloesi a Gwella ar gyfer Gorllewin Cymru, gan adeiladu ar argymhellion yr ymarfer mapio, a'i nod oedd ymgorffori pob agwedd ar Ymchwilio, Arloesi a Gwella yng ngwaith y bartneriaeth yn y dyfodol a gwella cyngor a chymorth i bartneriaid. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn gynnar yn 2021-22 a bydd yn gam allweddol tuag at wireddu nodau'r Hyb Cydlynu Ymchwilio, Arloesi a Gwella dros y cyfnod sydd i ddod.



# 5. Gweithlu cynaliadwy sy'n perfformio'n dda

Mae'r profiad o'r pandemig Covid-19 dros y 12 mis diwethaf wedi rhoi ffocws canolog i'r heriau a wynebir yn ddyddiol gan ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a phwysigrwydd mawr cael staff medrus, hyblyg a chydnerth i ddarparu gofal a chymorth yn effeithiol i'n poblogaeth. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae angen i ni feddwl yn greadigol ac ar y cyd am y modd yr ydym yn harneisio ymrwymiad, egni a chreadigrwydd ein staff, yn eu cefnogi ac yn gofalu am eu llesiant ac yn parhau i ddenu unigolion o safon uchel i sector sydd, drwy'r sylw dwys a pharhaus y mae wedi'i gael yn ddiweddar, wedi'i weld fel un sydd â'i heriau a'i gyfleoedd fel ei gilydd.

Mae ein bwrdd gweithlu rhanbarthol, dan gyd-gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro a Chyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wedi parhau i oruchwylio ein rhaglen ranbarthol uchelgeisiol. Er gwaethaf y pwysau oherwydd Covid-19 rydym wedi parhau i wneud cynnydd ym mhob un o'n pedair ffrwd waith sydd â blaenoriaeth. Caiff yr uchafbwyntiau eu nodi isod.

Recriwtio a denu:

- Archwiliad arfer da o arferion Adnoddau Dynol ar draws y rhanbarth, a ddefnyddiwyd i gynhyrchu pecyn adnoddau i gefnogi partneriaid mewn gweithgareddau recriwtio
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n arwain at nodi meysydd blaenoriaeth penodol, gan gynnwys adolygu dulliau recriwtio ar-lein ac effaith cynlluniau cymhelliant a ddefnyddir gan ddarparwyr gofal
- Datblygu pecyn cymorth llesiant i helpu darparwyr i wella a chynnal llesiant eu staff
- Cynhyrchu offeryn ymgysylltu i helpu partneriaid i asesu canfyddiadau o yrfaoedd ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, i ategu gwaith cynllunio yn y dyfodol
- Cymorth penodol i bartneriaid yng nghyd-destun Covid-19, gan gynnwys cymorth ar gyfer recriwtio ar-lein a gweminarau i ddarparwyr annibynnol sy'n canolbwyntio ar gadw staff a helpu staff i ffynnu o dan bwysau
- Gweithio gyda'r Brifysgol Agored ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe i ddarparu lleoliadau ar-lein i 16 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol

Dysgu a datblygu:

- Datblygu cynllun gweithlu rhanbarthol i wella'r cymorth i bobl â dementia a'u gofalwyr
- Darparu sesiynau 'profiad dementia' sy'n ddiogel o ran Covid i bartneriaid allweddol er mwyn gwella eu gwybodaeth am ddarparu cymorth priodol a'u dealltwriaeth o sut i wneud hyn
- Cyflwyno ail flwyddyn ein rhaglen Datblygiad Proffesiynol achrededig arloesol ar gyfer comisiynwyr, a ddarperir gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, gyda 18 o gyfranogwyr o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol ac iechyd
- Datblygu a chyflwyno cwrs achrededig peilot ar lefel 3 ar gyfer rhagnodwyr cymdeithasol a chwrs lefel sylfaen ar gyfer eraill sy'n ymwneud â rhagnodi cymdeithasol, fel rhan o'r

rhaglen Trawsnewid - Creu Cysylltiadau i Bawb. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn 2021-22 i lywio datblygiad rhaglen sy'n benodol i Gymru

- Modiwlau e-ddysgu a gyflwynir ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol yng ngoleuni Covid-19, gan gynnwys rhaglenni penodol sy'n ymwneud â rheoli heintiau ac â phrofedigaeth a chyflwyniad i ofal a gofal personol i staff sydd wedi'u hadleoli. Mae cyrsiau wyneb yn wyneb wedi'u cadw lle bo angen, er enghraifft cyrsiau ar godi a chario

Rhaglen Prentisiaeth:

- Recriwtio pum prentisiaeth a thri gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant trwy ymgyrch hysbysebu benodol a oedd yn cynnwys fideos hyrwyddol gan reolwyr llinell posibl

Cynllunio'r gweithlu:

- Adleoli staff i swyddi iechyd a gofal mewn ymateb i'r pandemig

Mae cyllid trwy Raglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) a'r Grant Hwyluso, a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r gweithgareddau uchod. Bydd ein rhaglenni blaenoriaeth yn parhau yn 2021-22, wedi'u cysoni fel y bo'n briodol â chyflwyno'r strategaeth gweithlu genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

## 6. Ymgysylltu parhaus a chyd-gynhyrchu

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol hyrwyddo a chefnogi ymgysylltiad ag ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu eu blaenoriaethau a chyflawni rhaglenni newid.

Un o'r blaenoriaethau allweddol yw sicrhau bod gan ddinasyddion lais o amgylch bwrdd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Mae ein haelodaeth bresennol yn cynnwys dau ddefnyddiwr gwasanaeth ac un gofalwr o wahanol rannau o'r rhanbarth ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi yn ein trafodaethau ac wrth i ni wneud penderfyniadau. Cafodd y sylwadau canlynol eu rhoi gan ein cynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr:

‘Rwyf wedi bod yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ers 2017. Mae gennyf gyflwr prin o'r enw Atacsia, sy'n effeithio ar serebelwm yr ymennydd ac sy'n achosi problemau gyda chydbwysedd, cydsymud a lleferydd. Fel rhywun sydd angen cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal, rwyf yn gwybod am bwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau, rhannu gwybodaeth a chyd-gynhyrchu. Teimlaf ei bod yn fraint cael sedd 'wrth y bwrdd' fel y gallaf ddod â safbwynt defnyddiwr gwasanaeth mewn cyfarfodydd. Mae wedi bod yn her dod i ddeall y jargon, y byrfoddau a natur dechnegol yr hyn sy'n cael ei drafod, ond mae'n dda iawn bod yn rhan o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl yng Ngorllewin Cymru.

Mae cael pobl fel fi ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn golygu newid meddylfryd i'r aelodau proffesiynol. Yma yng Ngorllewin Cymru rydym wedi gweld fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau yn cael eu cyflwyno, sydd hefyd wedi cael croeso gan aelodau eraill! Hefyd, o dan ddylanwad cynrychiolwyr dinasyddion eraill ac yn unol â'r Siarter Anableddau Dysgu, rydym wedi gweld newidiadau yn y ffordd y caiff cyfarfodydd eu cynnal, gan eu gwneud yn fyrrach, caniatáu seibiannau a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu at y ddadl.

Yn sicr, mae mwy i'w wneud i wneud ein cyfraniad mor effeithiol ag y gall fod, ond credaf yng Ngorllewin Cymru fod gennym sylfeini cadarn i adeiladu arnynt.’

*Alan Thomas, cynrychiolydd defnyddwyr*



‘Des i'n gynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn 2017. Mae wedi bod yn dda eistedd ar y Bwrdd. Gall y wybodaeth weithiau fod yn gymhleth i'w deall ond mae Karen o Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, sy'n dod gyda mi, yn helpu i'w hegluro i mi.

Gall pobl siarad yn eithaf cyflym mewn cyfarfodydd ac ni allaf gadw i fyny bob amser felly mae'n rhaid i mi ofyn a allan nhw arafu. Rwy'n credu bod angen i weithwyr proffesiynol ddysgu arafu ac egluro gwybodaeth mewn geiriau syml, nid defnyddio geiriau anodd hir.

Rwyf wedi mwynhau bod ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac rwy'n dod ymlaen yn dda â phawb. Byddwn i'n dweud er hynny, yn ystod y pandemig, nad yw wedi bod yn rhwydd i allu mynychu'r cyfarfodydd oherwydd eu bod wedi'u cynnal ar-lein sydd yn fwy anodd i mi.’

*James Tyler, cynrychiolydd defnyddwyr*



‘Fel cynrychiolydd gofalwyr, rwy'n gwneud fy ngorau i gynrychioli llais y 47,000 o Ofalwyr yr amcangyfrifir sydd yng Ngorllewin Cymru. Mae hon yn dasg eithaf heriol, ond mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn ac wedi cynnig cymorth i'n galluogi i gyfrannu at drafodaethau.

Credaf y byddai modd gwella pethau drwy ehangu'r gwaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a Gofalwyr a theimlaf y gellid cynnwys cynrychiolwyr i raddau mwy yn y gweithgorau sy'n eistedd o dan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Fodd bynnag, rwy'n deall efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl a hoffwn ychwanegu hefyd ein bod yn gwirfoddoli ein hamser a bod gennym lawer o ymrwymiadau eraill felly efallai na fydd gennym amser i allu gwneud hyn. Ar y cyfan, mae'n galondid i mi fod barn pobl â phrofiadau bywyd yn cael ei chynnwys ar y Bwrdd ac y bydd hyn yn arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau i boblogaeth y rhanbarth’.

*Joanne Silverthorne, cynrychiolydd gofalwyr a Hyrwyddwr Awtistiaeth*

Caiff llais defnyddwyr a gofalwyr yn y Bartneriaeth ei atgyfnerthu ymhellach trwy ymgysylltu â defnyddwyr a gofalwyr mewn gwahanol is-grwpiau o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, yn arbennig y Bartneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol dros Anableddau Dysgu dan gadeiryddiaeth ar y cyd y *Dream Team* o bobl ag anableddau dysgu, a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sydd hefyd bellach yn craffu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio ac adolygu gwasanaethau cyfredol a'n gwahanol raglenni trawsnewid. Bydd y porth ymgysylltu digidol 'Engagement HQ' yr ydym wedi'i gaffael yn ddiweddar yn ein galluogi i ymgysylltu ar ffurf rithwir ag amrywiaeth o gymunedau daearyddol a chymunedau sydd â diddordeb ac rydym yn bwriadu treialu hyn mewn amryw o wahanol ardaloedd dros y flwyddyn i ddod. Rydym am sicrhau bod yr offeryn hwn a dulliau eraill yn cael eu defnyddio i ryngweithio'n uniongyrchol ac yn effeithiol â grwpiau 'anodd eu cyrraedd' traddodiadol a'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

Gan fod yn ymwybodol o effaith cyfyngiadau dros y flwyddyn ddiwethaf megis gorfod cynnal cyfarfodydd ar ffurf rithwir, ac arwyddocâd ychwanegol llais y defnyddiwr a'r gofalwr wrth asesu effeithiau Covid-19 a'u goblygiadau ar gyfer darparu gofal a chymorth yn y dyfodol, rydym yn bwriadu ailedrych ar rôl defnyddwyr a gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a grwpiau rhanbarthol eraill, nodi meysydd i'w gwella ac ystyried lle y gellir gwella'r cymorth (er enghraifft, trwy ddarparu sesiynau briffio cyn y cyfarfod, cynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen o bapurau a sicrhau bod pob aelod yn gallu cyflwyno eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd). Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Y llynedd gwnaethom ddarparu gwybodaeth am ein Fforwm Arloesi a sefydlwyd gennym yn 2019 fel mecanwaith allweddol ar gyfer dod â grwpiau a'r holl sectorau at ei gilydd i drafod materion strategol a gweithredol a hyrwyddo gwerth cymdeithasol wrth gynllunio a darparu gofal a chymorth yng Ngorllewin Cymru. Yn anffodus, oherwydd y pwysau sylweddol ar ddarparwyr a chomisiynwyr yn sgil y pandemig, nid ydym wedi gallu datblygu gwaith y Fforwm fel yr oeddem wedi'i ragweld yn wreiddiol. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ailgynnull y grŵp yn ystod y misoedd nesaf ac yn sicrhau ei fod yn dod i chwarae rhan lawn mewn trafodaethau cydweithredol ynghylch y gwersi a ddysgwyd a'r hyn y maent yn ei olygu i ddyfodol y sector yn ein rhanbarth.

# Atodiad 1

Aelodau presennol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yw:

| | |
|---|---|
| Margaret Allen (hyd at fis Mawrth 2021) | Cynrychiolydd gofalwyr |
| Jonathan Griffiths | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro |
| Judith Hardisty | Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Estelle Hithchon | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Y Cynghorydd Tessa Hodgson | Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro |
| Sian Howys | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal, Cyngor Sir Ceredigion |
| Sarah Jennings (hyd at fis Awst 2020) | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Hilary Jones | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Bro Myrddin |
| Hazel Lloyd Lubran | Prif Swyddog, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion |
| Jake Morgan | Cyfarwyddwr Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jonathan Morgan | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Gareth Morgans | Cyfarwyddwr Addysg a Phlant, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jill Paterson | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Malcolm Perret | Is-gadeirydd, Fforwm Gofal Cymru |
| Donna Pritchard | Dirprwy-gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion |
| Joanne Silverthorne | Cynrychiolydd gofalwyr |
| Alan Thomas | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth |
| Cathryn Thomas | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Gaynor Toft | Prif Swyddog Tai, Cyngor Sir Penfro |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Tremlett | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| James Tyler | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth |
| Y Cynghorydd Alun Williams | Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion |

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth:

Ewch i wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn www.wwcp.org.uk

Anfonwch e-bost atom ar wwcp@sirgar.gov.uk

Neu

Ffoniwch ni ar 01267 228765

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Awst 2021

